

PWYLLGOR CRAFFU LLE

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 24 Mawrth, 2026.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Y Cynghorydd C. Iannucci-Williams (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr G.M. Ball, C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, I.A.N. Perry, C. Stallard a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: M. Blackmore a G. Doyle (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolwyr Panel); O. Carroll (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a Bro Morgannwg); a'r Cynghorwyr A. Asbrey, J. Aviet, B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), C.P. Franks, S.M. Hanks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne, S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid), N.C. Thomas ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorydd E. Penn a K. Mitchell (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2026 a'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2026 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. ADOLYGIAD O WEITHGAREDD HAMDDEN PEILOT YM MHARC GWLEDIG COSMESTON (CYF) –

Pleidleisiwyd ar yr argymhelliad isod gan y Pwyllgor, o dan Bleidlais Gofnodedig, fel a ganlyn:

	O Blaid	Yn Erbyn	Ymatal
C.E.A. Champion	√		
P. Drake		√	

V.P. Driscoll	√		
A.M. Ernest	√		
M.J. Hooper	√		
C. Iannucci-Williams		√	
S. Lloyd-Selby		√	
J.M. Norman		√	
I.A.N. Perry	√		
C. Stallard		√	
S.T. Wiliam	√		
Cyfanswm	6	5	

Felly, pasiwyd y bleidlais i gefnogi'r argymhelliad a nodir isod.

Y Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – BOD y Cabinet yn ystyried y canlynol: y dylid cymhwyso'r egwyddor ragofalus a rhoi'r pwyslais mwyaf i ddiogelu ecosystem y llynnoedd ym Mharc Gwledig Cosmeston, heb roi pwyslais i incwm y Cyngor pan fydd y Cyngor yn ystyried parc dŵr a gweithgareddau tebyg ym Mharc Gwledig Cosmeston a'i lynnoedd.

Rheswm dros yr argymhelliad

I'w gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried, yn dilyn y trafodaethau yn y cyfarfod ar y cyfeiriad a'r adroddiad, a'r materion a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor, siaradwyd cyhoeddus ac eraill yn y cyfarfod, fel rhan o'u hystyriaeth o'r Adolygiad.

EITEM AGENDA 5. CYNLLUNIAU'R GYFARWYDDIAETH AMGYLCHEDD A THAI A LLE 2026/27 (YN AMLINELLU GWEITHGAREDDAU BLWYDDYN 2, MESURAU PERFFORMIAD A THARGEDAU PERFFORMIAD CYSYLLTIEDIG I GYFLAWNI DYFFRYN 2030, CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR 2025-30) (CL/CAT) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid Cynlluniau'r Gyfarwyddiaeth Lle (Atodiad A i'r adroddiad) a'r Gwasanaethau Amgylchedd a Thai (Atodiad B i'r adroddiad) a'r mesurau a'r targedau perfformiad cysylltiedig ar gyfer 2026/27 sydd ynddynt, sy'n ymwneud â chwmpas y Pwyllgor, yn cael eu cymeradwyo a'u cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau a gynlluniwyd, y mesurau cysylltiedig a'r targedau perfformiad ar gyfer y Gyfarwyddiaethau Lle a Gwasanaethau Amgylchedd a Thai, fel y manylir yn y Cynlluniau ac o fewn cwmpas y Pwyllgor, yn berthnasol ac

ynghyd â'r tair Cynllun Cyfarwyddiaeth arall, y byddent yn dod yn brif fodd y byddai perfformiad yn erbyn y Dyffryn 2030 yn cael ei fonitro a'i fesur yn ystod 2026/2027.

EITEM AGENDA 6. CYNLLUN CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD 3
BLYNEDD: 2026 – 2029 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Cynllun Tair Blynedd Cynnal a Chadw Priffyrdd: 2026 – 2029. Felly, gan na dderbyniwyd unrhyw argymhellion pellach yn effeithio ar y Cynllun arfaethedig gan y Pwyllgor Craffu, cytunwyd ar Gynllun Tair Blynedd Cynnal a Chadw Priffyrdd: 2026–2029.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys ac argymhellion y cyfeirnod a'r adroddiad, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod. Er mwyn galluogi'r Cynllun terfynol i gael ei gymeradwyo ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Lle.